OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 361

# Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2013

**Apelau i ddyfarnydd o ran penderfyniadau o dan reoliad 4**

**5.**—(1) Pan fo awdurdod yn cyflwyno hysbysiad gwrthod o dan reoliad 4(2)(b) o ran sylwadau o dan reoliad 3(4), caiff y person sy'n gwneud y sylwadau hynny—

(a) o fewn 28 o ddiwrnodau, sy'n dechrau ar y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad hwnnw; neu

(b) o fewn unrhyw gyfnod hirach y bydd dyfarnydd yn ei ganiatáu,

apelio at ddyfarnydd yn erbyn penderfyniad yr awdurdod.

(2) Ar apêl o dan y rheoliad hwn, rhaid i'r dyfarnydd ystyried y sylwadau o dan sylw ac unrhyw sylwadau ychwanegol a wneir gan yr apelydd.

(3) Os bydd y dyfarnydd yn dod i'r casgliad—

(a) bod unrhyw rai o'r seiliau y cyfeiriwyd atynt yn rheoliad 3(5) yn gymwys; a

(b) y byddai'r awdurdod gorfodi wedi bod o dan y ddyletswydd a osodwyd gan reoliad 4(3) i ad-dalu unrhyw swm os oedd wedi cyflwyno hysbysiad ei fod yn derbyn bod y sail o dan sylw yn gymwys,

rhaid i'r dyfarnydd gyfarwyddo'r awdurdod hwnnw i ad-dalu'r swm hwnnw.

(4) Rhaid i'r awdurdod gorfodi y rhoddir cyfarwyddyd iddo o dan baragraff (3) gydymffurfio ag ef ar unwaith a bydd unrhyw hawl sydd ganddo i adennill unrhyw swm a allai fel arall fod wedi bod yn ddyledus iddo drwy dâl cosb neu oherwydd symud y cerbyd ymaith, ei storio neu ei waredu, yn peidio â bod.

(5) Os na fydd y dyfarnydd yn rhoi unrhyw gyfarwyddyd o dan baragraff (3) ond ei fod wedi ei fodloni bod rhesymau cryf, o dan amgylchiadau penodol yr achos, pam y dylid ad-dalu rhywfaint o'r symiau neu'r cyfan o'r symiau a dalwyd i sicrhau rhyddhau'r cerbyd, neu a ddidynnwyd o enillion y gwerthiant, caiff y dyfarnydd argymell bod yr awdurdod gorfodi yn gwneud y cyfryw ad-daliad.

(6) Bydd yn ddyletswydd ar awdurdod gorfodi y caiff argymhelliad ei gyflwyno iddo o dan baragraff (5) ystyried o'r newydd gwneud ad-daliad o'r symiau hynny gan roi ystyriaeth lawn i unrhyw sylwadaeth gan y dyfarnydd ac, o fewn y cyfnod o bymtheg ar hugain o ddiwrnodau ("y cyfnod o 35 o ddiwrnodau") sy'n dechrau ar y dyddiad y rhoddwyd y cyfarwyddyd, hysbysu'r apelydd a'r dyfarnydd p'un a yw'n derbyn argymhelliad y dyfarnydd ai peidio.

(7) Os bydd yr awdurdod gorfodi yn hysbysu'r apelydd a'r dyfarnydd nad yw'n derbyn argymhelliad y dyfarnydd, rhaid iddo ar yr un pryd eu hysbysu o'r rhesymau dros ei benderfyniad.

(8) Ni cheir apelio at y dyfarnydd yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod gorfodi o dan baragraff (7).

(9) Os bydd yr awdurdod gorfodi'n derbyn argymhelliad y dyfarnydd, rhaid iddo wneud yr ad-daliad a argymhellwyd o fewn y cyfnod o 35 o ddiwrnodau.

(10) Os bydd yr awdurdod gorfodi yn methu â chydymffurfio â gofynion paragraff (6) o fewn y cyfnod o 35 o ddiwrnodau, bernir bod yr awdurdod wedi derbyn argymhelliad y dyfarnydd a rhaid iddo wneud yr ad-daliad a argymhellwyd yn union ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw.